

Ceisiadau Cynllunio

Dweud eich dweud yng nghyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Abertawe

Mae gwranddo ar farn pobl yn rhan bwysig o waith Cyngor Dinas a Sir Abertawe. Mae'r Pwyllgor Cynllunio'n croesawu sylwadau gan bobl leol ar geisiadau cynllunio sy'n effeithio arnynt.

Y Pwyllgor Cynllunio sy'n penderfynu ar y ceisiadau cynllunio mwyaf, cymhleth neu fwy dadleuol yn y ddinas.

Oherwydd y sefyllfa bresennol o ran Covid-19, cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio o bell yn awr.

Mae unrhyw sylwadau a gyflwynwyd hyd yn hyn wedi'u crynhoi yn Adroddiad y Pwyllgor ac fe'i hystyriwyd wrth baratoi'r argymhelliad. Mae'r sylwadau hyn ar gael i Aelodau'r Pwyllgor eu gweld ar wefan gynllunio'r cyngor. Os bydd gennych sylwadau ychwanegol i'w gwneud, dylech eu cyflwyno'n ysgrifenedig i cynllunio@abertawe.gov.uk **erbyn ganol dydd ar y diwrnod gwaith cyn cyfarfod y Pwyllgor**. Ni ddylai'r sylwadau hyn gynnwys mwy na 500 o eiriau a dylid eu cyfyngu i faterion newydd yn unig. Bydd y sylwadau ar gael i Aelodau'r Pwyllgor. Ni fydd y cyngor yn ystyried unrhyw sylwadau tramgwyddus neu rai a allai fod yn enllibus.

Mae gan unrhyw un sydd wedi gwneud sylwadau ar y cais yn flaenorol yr hawl i wneud datganiad i'r pwyllgor, ar yr amod ei fod yn rhoi rhybudd ymlaen llaw erbyn canol dydd y diwrnod gwaith cyn y Pwyllgor. Cysylltwch â'r Gwasanaethau Democrataidd drwy ffonio 01792 636923 neu e-bostio gwasanaethau.democrataidd@abertawe.gov.uk i gofrestru. Caiff unrhyw gyflwyniad llafar ei gyfyngu i gyfanswm o 5 munud felly efallai bydd angen i chi gysylltu â siaradwyr eraill i drefnu amseroedd.

Gellir gweld cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio drwy'r ddolen ganlynol:
www.abertawe.gov.uk/Gwyliocyfarfodyddar-lein